

Gwarchod gwerthoedd

*“Chwi yw halen y ddaear; ond os cyll yr halen ei flas, â pha beth yr helltir ef?
(adn. 13)*

Beth am ddarlun Mathew 5:1–16 ac yna myfyrio

Does dim amheuaeth nad oes gan yr Eglwys Gristnogol frwydr. Efallai mai hon yw'r frwydr fwyaf y bu iddi erioed ei hwynebu. Yr ydym yn byw ac wedi byw ers tipyn o amser mewn cyfnod sydd yn cael ei alw gan rai fel cyfnod “ôl–Gristnogol”, ac mae'r Eglwys i'r rhan fwyaf o bobl yn gwbl amherthnasol.

Ar ben mynydd yng nghanolbarth India, roedd yna gaer oedd yn cael ei hamddiffyn gan filwyr yn dal ffyn miniog yn eu dwylo ac wedi eu gwisgo mewn gwisgoedd crand iawn. Ar un adeg yr oedd holl weinyddiaeth yr ardal honno yn cael ei rheoli o'r gaer yma. Ond bellach, roedd canolbwynt y grym wedi symud i ddinas filltiroedd i ffwrdd. Er nad oedd gan y gaer yma ddim pwrpas i'w bodolaeth bellach, eto roedd y milwyr yn dal i wyllo. Yn ôl y rhai sydd yn beirniadu'r Eglwys heddiw, mae hwn yn ddarlun sydd yn ei disgrifio i'r dim. Mae'n sefyll yn amherthnasol i ofynion yr oes. Nid yw'n wynebu problemau ein dyddiau. Mae'n gwarchod gwerthoedd sydd yn amherthnasol.

Yr ydym am wadu hyn yn syth. Nid yw ein gwerthoedd yn amherthnasol. Efallai fod y gwerthoedd hyn yn amwys oherwydd iaith hynafol, ond wedi diosg yr hen wisg yma, dyma'r gwerthoedd sydd eu hangen ar y byd. Heb y gwerthoedd hyn, mae ein cymunedau yn ddim mwy na phrysurddeb, pobl yn mynd a chyrraedd yr un man gan ymdrechu fwyfwy er mwyn goroesi.

Beth yw'r gwerthoedd y mae'r Eglwys yn eu hamddiffyn? Dyma restr fer er bod yna lawer mwy: yr angen i addoli Duw; gonestrwydd; purdeb; ffyddlondeb; gwasanaethu eraill; atebolrwydd; pwysigrwydd y teulu. Mae'r gwerthoedd hyn fel lefain mewn cymdeithas yn ei harbed rhag dymchwel yn llwyr. Roedd yna adeg pryd roedd y byd yn pwysleisio eu gwerth, ond dim mwyach. Mae'r byd yn gyffredinol wedi penderfynu nad oes angen gwerthoedd absoliwt, na moesoldeb absoliwt. Unig obaith y byd, yn ein tyb ni, yw Eglwys sydd wedi ei diwygio mewn ffordd rymus ac ysbrydol.

Beth am fynd ymlaen i ddarlun:

Lef. 2:13; Marc 9:50; Luc 14:34–35; Phil. 2:14–16; Col. 4:6

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw prif nodweddion halen?
2. Sut y gall ein sgwrs fod wedi ei “flasu â halen”?

Gweddi

O Dad, rwyt wedi ein galw i fod yn halen ac yn oleuni. Maddau i ni fod yr halen wedi colli ei flas a bod ein goleuni'n llewyrchu yn wan iawn. Arllwys dy Ysbryd ar dy Eglwys, O Dad. Eto, rwy'n gofyn i ti: diwygia ni, adnewyddu ni. Yn enw Iesu. Amen.